


Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 61/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2026

Deall Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru Ffrwd Waith Dystiolaeth 2024-2026

Adroddiad Mewnwelediadau - Synthesis o'r dystiolaeth hyd yma



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint Y Goron ISBN Digidol: **978-1-83745-402-0**

Deall Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru

Ffrwd Waith Dystiolaeth 2024-2026

Adroddiad Mewnwelediadau - Synthesis o'r dystiolaeth hyd
yma

Awdur: Jessica Steventon

Adroddiad Ymchwil Llawn: Steventon, J. (2026). Deall Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru: Ffrwd Waith Dystiolaeth 2024-2026. Adroddiad Mewnwelediadau - Synthesis o'r dystiolaeth hyd yma. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 61/206

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deall-cyfranogiad-mewn-addysg-drydyddol-yng-nghymru-ffrwd-waith-tystiolaeth-2024-i-2026>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Addysg a Sgiliau Ôl-16

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Talfyriadau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Deddf ADYTA	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
Pwyllgor PPIA	Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
AU	Addysg uwch
DAU	Darparwyr Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
HESA	Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
SAB	Sefydliadau addysg bellach
FCF	Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn
PYAD	Prydau Ysgol Am Ddim
CSAA	Canllawiau i sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
NET	Ddim mewn addysg na hyfforddiant
NEET	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
OECD	Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
PISA	Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr
AAA	Anghenion addysgol arbennig
STEM	Gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg
AD	Addysg Drydyddol
SAD	Sefydliad Addysg Trydyddol
AHG	Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
WCPP	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
YEPF	Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid

Cynnwys

1. Cyflwyniad	6
1.1. Cefndir	6
1.2. Diwygiadau addysg yng Nghymru	7
1.3. Diben yr adroddiad hwn	8
2. Ffrwd waith dystiolaeth.....	8
2.1. Cwestiynau ymchwil allweddol	8
2.2. Diffinio cyfranogiad	8
2.3. Crynodeb o'r ymchwil a'r dystiolaeth a gynhaliwyd.....	9
Dadansoddeg a chysylltu data	9
Adolygiadau tystiolaeth	10
Gwerthuso ac adolygu ymyriadau presennol	10
Ymchwil a thystiolaeth berthnasol ehangach	11
3. Crynodeb o'r canfyddiadau	13
3.1 Sut mae cyfranogiad wedi newid dros amser? Pa grwpiau dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?	13
3.2 Beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at addysg drydyddol? Sut mae'r rhwystrau hyn yn wahanol ar draws y sector?	14
3.3 Meysydd o cryfder a meysydd i'w gwella yng Nghymru	18
4. Demograffeg dysgwyr a chyfranogiad	22
4.1 Amddifadedd	22
4.2 Ethnigrwydd.....	24
4.3 Rhyw	25
4.4 Oedran	26
4.5 Anabledd ac ADY/AAA	26

4.6 Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg a chyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg	29
4.7 Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal	30
5. Themâu allweddol	32
Dull lefel system	32
Pwysau chwyddiant a chostau byw cynyddol	33
Iechyd meddwl sy'n gwaethygu ymhlith pobl ifanc	33
Mae anghydraddoldeb seiliedig ar leoedd yn llunio cyfranogiad	34
6. Bylchau yn y dystiolaeth a chyfyngiadau	35
7. Goblygiadau a chyfeiriadau'r dyfodol	37
Cyfeiriadau	39

1. Cyflwyniad

1.1. Cefndir

Gwelwyd tuedd ar i lawr yng nghyfranogiad dysgwyr sydd â'u domsil yng Nghymru mewn addysg drydyddol (AD) yn ystod y blynyddoedd diwethaf. At hynny, mae adroddiad [Pontio i fyd gwaith](#), yr [Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru](#) a'r [sgwrs genedlaethol Gwarant i Bobl Ifanc](#) yn dangos bod nifer o rwystrau a all rwystro pontio llwyddiannus a llyfn i addysg a hyfforddiant ôl-16.

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y [Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi](#), o dan *Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022*. Roedd llawer o'r blaenoriaethau strategol yn tynnu sylw at y gofynion am ddata a thystiolaeth gadarn, berthnasol ac amserol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr sefydlu a gweithredu Cofrestr o ddarparwyr addysg uwch o 1 Awst 2026 a goruchwyllo eu cydymffurfiaeth ag ystod o amodau cofrestru¹. Mae Cyfle Cyfartal ac Amodau'r Gymraeg Medr yn cynnwys cyfeiriad penodol at gyfranogiad. Ymgwymerodd Medr â phroses ymgynghori ffurfiol dau gam (Mai 2025 a Hydref 2025) ochr yn ochr ag ymgysylltu â'r sector, cyrff cynrychioliadol a dysgwyr. Bydd Medr yn cyhoeddi'r Fframwaith Rheoleiddio newydd ym mis Ebrill 2026 i'w wneud cais i'r gofrestr a gweithredu amodau cyllido o 1 Awst 2026 ymlaen.

Ar ôl ei phenodi ym mis Medi 2024, comisiynodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch [ffrwd waith dystiolaeth](#) i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth yng Nghymru er mwyn gallu llywio'r gwaith o gyflwyno rhaglenni'n well yn y dyfodol. Mae'r *adroddiad hwn* yn dwyn ynghyd y canfyddiadau diweddaraf o bob rhan o'r ffrwd waith dystiolaeth. Gellir dod o hyd i fanylion llawn mewn adroddiadau ymchwil llawn a phapurau ystadegol ar wahân.

Dechreuodd [y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ymchwiliad i 'lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16' ar ddiwedd 2024, mewn ymateb i'r heriau a brofwyd o ran cyfranogiad. Cyhoeddwyd yr [adroddiad terfynol](#) ym mis Tachwedd 2025, gydag ymateb gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026.

Ym mis Ionawr 2026, amlinellodd un o bapurau Llywodraeth Cymru o'r enw '[Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru 5 her a galwad am gyflwyniadau](#)' y sylfaen dystiolaeth ar bum her sy'n wynebu'r system drydyddol yng Nghymru:

- Cyfranogiad a chyfle cyfartal – sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u cefndir, yn gallu cael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch a llwyddo ynddi.

¹ Mae is-set o'r amodau hynny'n berthnasol fel amodau cyllido i'r sector trydyddol ehangach o 1 Awst 2026 - sef addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a phrentisiaethau, y maent yn gwneud cais iddynt o 1 Awst 2027.

- Newid demograffig a dysgu gydol oes – ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio a chefnogi dysgu gydol oes.
- Cystadleuaeth a chydweithio – cefnogi gwaith partneriaeth cryf ar draws y sector.
- Cynaliadwyedd ariannol – sicrhau bod sefydliadau'n gallu darparu addysg ac ymchwil o ansawdd uchel ar sail ariannol gadarn.
- Cyflawni ar gyfer economi'r dyfodol – cysoni addysg ag anghenion yr economi sy'n esblygu.

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddwyd y [Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol](#) (AHG), sy'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth AHG yng Nghymru, sy'n cynnwys Blaenoriaeth Tri Cenedlaethol: Cyfranogiad a Dilyniant.

1.2. Diwygiadau addysg yng Nghymru

Mae'r dirwedd addysg yng Nghymru, cyn ac ar ôl-16 oed, wedi bod yn ddynamig ac wedi'i hysgogi gan ddiwygiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda diwygiadau deddfwriaethol mawr yn ail-lunio profiadau a llwybrau dysgwyr. Digwyddodd y cyfnod cyflwyno ar gyfer diwygiadau allweddol yn ystod y cyfnod o gasglu tystiolaeth ar gyfer llawer o'r prosiectau sy'n cyfrannu at yr adroddiad hwn. Ni fydd effaith y diwygiadau ar gyfranogiad ôl-16 yn cael ei gwireddu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, disgwylir iddynt gael effaith ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol yn y dyfodol. Mae diwygiadau perthnasol yn cynnwys:

- Cyflwyno Cwricwlwm i Gymru o 2022 ymlaen. Cafodd y cyflwyno ei ymestyn i ddysgwyr blwyddyn 10 yn 2025. O dan **yr Hawl i Ddysgu 14-16**, dylid cynllunio cwricwlwm Blwyddyn 10 ac 11 gan gyfeirio at bedair elfen sy'n cynnwys cynllunio ôl-16. Mae gan Gwricwlwm Cymru raglen barhaus o [werthuso ffurfiannol](#) i roi mewnwelediadau ar sut mae'n cael ei wireddu. Mae amrywiaeth o astudiaethau ymchwil ac adroddiad synthesis wedi'u cyhoeddi hyd yma.
- **Diwygio anghenion dysgu ychwanegol:** cyflwynodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cymru 2021 cysylltiedig drefniadau newydd ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chreu canllawiau statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, i ddisodli'r rhai ar gyfer anghenion addysgol arbennig erbyn mis Medi 2025. Mae [gwerthusiad ffurfiannol](#) parhaus o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda sawl allbwn hyd yma.
- **Diwygio cymwysterau 14-16:** Yn dilyn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, dechreuodd ton 1 o'r gyfres [Cymwysterau Cenedlaethol 14-16](#) newydd gael

ei haddysgu mewn ysgolion o fis Medi 2025. Mae ton 3 o'r cymwysterau diwygiedig (sy'n cael eu haddysgu o fis Medi 2027) yn cynnwys cymwysterau Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwchradd (TAAU) i gefnogi datblygiad ehangach dysgwyr.

- Mae **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** yn ail-lunio'r dirwedd addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, [Medr](#). Un o'r 11 o ddyletswyddau strategol a osodwyd ar Medr yw 'Annog Cyfranogiad'.

1.3. Diben yr adroddiad hwn

Mae tri diben i'r adroddiad synthesis tystiolaeth hwn:

- 1) Darparu mewnwelediadau cyfredol sy'n benodol i Gymru ar rwystrau i gyfranogiad a themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y sector addysg drydyddol mewn perthynas â chyfranogiad sy'n *ychwanegol* i'r rhai a gynhwysir yn adroddiad [Dyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru](#). Er mwyn bod yn gryno, nid yw'r adroddiad hwn yn ailadrodd dadansoddiad a chanfyddiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno, felly dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad blaenorol hwn i gael sylw llawn.
- 2) Cyfeirio'r darlennydd i'r sylfaen dystiolaeth am gefndir a manylion pellach
- 3) Tynnu sylw at fylchau tystiolaeth a meysydd sydd angen ymchwil a dadansoddi pellach.

2. Ffrwd waith dystiolaeth

2.1. Cwestiynau ymchwil allweddol

Ceisiodd y ffrwd waith dystiolaeth ateb nifer o gwestiynau ymchwil allweddol.

- Sut mae cyfranogiad wedi newid dros amser? Pa grwpiau dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?
- Beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at addysg drydyddol? Sut mae'r rhwystrau hyn yn wahanol ar draws y sector?
- Beth yw'r meysydd cryfder, a'r meysydd i'w gwella, yng Nghymru?

2.2. Diffinio cyfranogiad

Diffinnir addysg drydyddol fel unrhyw fath o addysg ôl-orfodol ac mae'n cynnwys Safon Uwch, dysgu galwedigaethol, addysg uwch, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau a dysgu oedolion.

At ddibenion y ffrwd waith dystiolaeth, diffinnir cyfranogiad yn eang i gwmpasu mynediad (cofrestru), cwblhau a chanlyniadau. Efallai na fydd y dangosyddion hyn ar gael ar draws pob math o addysg drydyddol nac ym mhob is-grŵp ond lle maent ar gael maent yn rhoi darlun o deithiau dysgwyr o'r ymgeisio, p'un a ydynt yn aros mewn cyrsiau ac yn cwblhau unrhyw ganlyniadau mesuradwy fel cymwysterau a chyflogaeth.

2.3. Crynodeb o'r ymchwil a'r dystiolaeth a gynhaliwyd

Defnyddiwyd dull triongli i ddeall cyfranogiad, gydag ymchwil a dadansoddi wedi'u comisiynu ar draws nifer o linyddau methodolegol, i ddarparu golwg amlochrog ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol. Mabwysiadwyd lens cydraddoldeb drwyddi draw gan ystyried tystiolaeth yn ôl nodweddion y dysgwr gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, anabledd, profiad o fod mewn gofal, a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefydlwyd grŵp llywio dadansoddwyr gydag aelodaeth o Lywodraeth Cymru, Medr, Gyrfa Cymru a Chymwysterau Cymru. Lle bo'n bosibl, adlewyrchwyd tystiolaeth allanol a gynhyrchwyd yn ystod oes y ffrwd waith o fewn y sylfaen dystiolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn syntheseiddio tystiolaeth o'r adolygiadau, gwerthusiadau a datganiadau ystadegol sydd ar gael ar adeg ysgrifennu. Mae allbynnau pellach i'w cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2026 nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad.

Mae rhestr o'r holl allbynnau ymchwil ac ystadegau a gyhoeddwyd yn ystod y ffrwd waith dystiolaeth a'u dolenni i'w gweld [fan hyn. Cyfranogiad mewn addysg drydyddol : ffrwd waith tystiolaeth | LLYW.CYMRU](#)

Dadansoddeg a chysylltu data

Comisiynwyd cyfres o brosiectau sy'n defnyddio cysylltu data fel ymchwil sylfaenol i ddeall tueddiadau mewn data cyfranogiad gydag is-ddadansoddiad ar gyfer nodweddion dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o gyrchfannau lefel 2 a lefel 3 sydd i fod i gael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Cyhoeddodd Medr ddata ar [gynnydd dysgwyr o flwyddyn 11 i addysg drydyddol](#) sy'n cwmpasu'r cyfnod Awst 2017 i Ionawr 2025. Disgwylir i'r datganiad diweddaraf, gan gynnwys data hyd at fis Tachwedd 2025, gael ei gyhoeddi [cyn bo hir](#).

Comisiynwyd partneriaid academiaidd yn YDG Cymru i ymgymryd â phrosiect cysylltu data i ddeall sut mae cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi newid dros amser. Mae'r dadansoddiad yn adeiladu ar waith gan yr un awduron gan ddefnyddio data mwy diweddar; amcangyfrifodd y [dadansoddiad blaenorol](#) a oedd yn cynnwys data cysylltu addysg hyd at 2017/2018 fod y gyfradd peidio â symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddwywaith mor uchel ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig (Huxley & Davies, 2024). Bydd yr adroddiad data yn cael ei gyhoeddi cyn

bo hir ac felly nid yw canfyddiadau'r dadansoddiad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Defnyddiodd dadansoddiad a gynhaliwyd gan y tîm Caffael a Chysylltu Data ar gyfer Ymchwil (DALfR), sef elfen Llywodraeth Cymru o bartneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) Cymru, ddata cysylltiedig² yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2025 i ymchwilio i [gryfder presenoldeb ysgol fel rhagfynegydd dilyniant i addysg ôl-16](#), gyda chanfyddiadau wedi'u cyhoeddi ym mis Chwefror 2026.

Adolygiadau tystiolaeth

Cynhaliwyd cyfres o adolygiadau tystiolaeth i ddarparu dealltwriaeth fanwl a chyfredol o safbwynt Cymru ar nifer o feysydd allweddol gan gynnwys rhwystrau i gyfranogiad, tystiolaeth ar ymyriadau effeithiol, ac archwiliad dwfn o'r ysgogwyr sy'n achosi diffyg cyfranogiad i ddysgwyr â demograffeg benodol. Cyhoeddwyd [adolygiad tystiolaeth o rwystrau i AU](#) i gefnogi'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond, yn unol â'r [cynllun tystiolaeth](#).

Gwerthuso ac adolygu ymyriadau presennol

Cynhaliwyd sawl elfen o waith maes gyda dysgwyr a phobl ifanc fel rhan o weithgarwch gwerthuso. Roedd llais y dysgwr yn ganolog i'r gwaith maes a gynhaliwyd, gyda mewnbwn gan ddysgwyr ym mlynedd 11, 12 a 13, dysgwyr AU a dysgwyr ar draws addysg bellach, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith.

Cynhaliwyd gwaith maes gyda rhanddeiliaid addysg drydyddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr addysg drydyddol a rhanddeiliaid y sector gan gynnwys Medr, y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, Prifysgolion Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfirwyr (UCM) Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Gyrfa Cymru, Voices from Care Cymru, Gweithgareddau i Bobl sy'n Gadael Gofal a Chymorth i Fyfirwyr (CLASS) Cymru, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru a Phartneriaeth Ymgynghraedd yn Ehangach.

Diwygiadau Diamond

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd [cynllun gwerthuso](#) a oedd yn nodi, ar draws chwe phhecyn gwaith, y dull o werthuso Diwygiadau Diamond i gyllid myfirwyr yng Nghymru yng nghyd-destun y sector addysg drydyddol ehangach.

² Y setiau data cysylltiedig oedd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), casglu data addysg ôl-16, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a data gwybodaeth rheoli presenoldeb ysgol wythnosol.

Cyhoeddwyd [Ymchwil i lywio'r gwerthusiad o'r Diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr yng Nghymru](#) ym mis Mawrth 2026, gan ganolbwyntio ar werthuso tri amcan diwygiadau Diamond, sef, ehangu mynediad, cryfhau darpariaeth ran-amser, a chryfhau' darpariaeth ôl-raddedig.

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn AB

Archwiliodd [y gwerthusiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru \(Addysg Bellach\)](#) ddarpariaeth ac effaith y grant sy'n dibynnu ar bawf modd ar gyfer dysgwyr AB sy'n oedolion yng Nghymru. Cyhoeddwyd y gwerthusiad ym mis Mawrth 2026 ac mae'n trafod tueddiadau mewn ceisiadau a dyfarniadau dros amser, proffil ac amgylchiadau ymgeiswyr, a sut mae'r grant yn cyd-fynd â phatrymau cyfranogiad addysg bellach cyfredol a phwysau ariannol drwy ddadansoddi data cyhoeddedig, cyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arolwg o ymgeiswyr.

Ymchwil a thystiolaeth berthnasol ehangach

Mae cyhoeddiadau ymchwil perthnasol ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod casglu tystiolaeth sy'n rhoi mewnwelediad o gyfranogiad mewn addysg drydyddol yn cynnwys:

- Y Warrant i Bobl Ifanc

Adolygodd y gwerthusiad gynllun, gweithredu a chyflawni'r Warrant i Bobl Ifanc yn erbyn ei bwriad strategol a'i chanlyniadau a fwriedir. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys adolygiadau o ffynonellau eilaidd ac ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid a phobl ifanc yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr [adroddiad terfynol](#) ym mis Medi 2025.

- Arolwg Profiadau Dysgwyr mewn addysg ôl-16

Er mwyn gwella dealltwriaeth o brofiadau dysgwyr rhwng 16 a 24 oed mewn addysg bellach, cynhaliwyd arolwg ym mis Ebrill a mis Mai 2024. Cyhoeddwyd [adroddiad ar ganfyddiadau'r arolwg](#) ym mis Rhagfyr 2024.

- Datblygiad gyrfaedd yn yr arddegau yng Nghymru

Mae'r dadansoddiad hwn a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau o Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sef arolwg rhyngwladol cymharol o bobl ifanc mewn addysg uwchradd. Mae PISA 2022 yn darparu data sylweddol ar ymgysylltiad pobl ifanc â datblygiad gyrfa, a'u canfyddiadau ohono, gan gynnwys gwybodaeth am fwriadau galwedigaethol ac addysgol a chyfranogiad mewn gweithgareddau datblygu gyrfa. Mae'r [papur gwaith](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, yn cymharu ymatebion myfyrwyr yng Nghymru â chyfartaleddau ar draws y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Asesodd yr adolygiad o'r [Lwfans Cynhaliaeth Addysg](#) (LCA) sut mae'r cynllun yn gweithredu, pwy mae'n ei gefnogi, a'i gyfraniad at ymgysylltiad a llesiant dysgwyr. Cyfunodd yr adolygiad ddadansoddiad o wybodaeth reoli â data arolwg, gwaith maes mewn ysgolion a cholegau AB, a chyfweliadau â rhanddeiliaid, a chyhoeddwyd yr [adroddiad terfynol](#) ym mis Gorffennaf 2024. [Mewn ymateb](#), cynyddodd Llywodraeth Cymru drothwyon incwm aelwydydd yr LCA ar gyfer dysgwyr cymwys newydd a pharhaus o flwyddyn academiaidd 2025 i 2026 ar y gyfradd a argymhellir.

- System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithredu'r system ADY. Cyhoeddwyd canfyddiadau [arolwg yn edrych ar farn ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol](#), gan gynnwys y rhai mewn AB, ym mis Mawrth 2025, ac yna canfyddiadau [arolwg o rieni a gofalwyr](#). Disgwylir i adroddiad Ton 1 elfen Astudiaethau Ardal Leol gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2026.

- Twf Swyddi Cymru+

Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen sy'n darparu hyfforddiant, datblygu a chymorth cyflogaeth i bobl ifanc 16 i 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Cyflwynwyd adroddiad gan [werthusiad annibynnol](#) ym mis Mehefin 2025 ac mae'n cynnwys cyrchfannau addysg a hyfforddiant yn dilyn cymorth.

- Incwm Sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru

Mae gwerthusiad cynhwysfawr wedi'i gomisiynu a chyhoeddwyd y [trydydd adroddiad gwerthuso blynyddol](#) yn ddiweddar, sy'n cynnwys naratif cyfranogwyr ar effeithiau'r incwm sylfaenol ar eu dewisiadau ynghylch ymgysylltu mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Disgwylir yr adroddiad gwerthuso terfynol yn haf 2027.

- Mewnwelediadau gan YDG Cymru

Yn ystod oes y ffrwd waith dystiolaeth, mae [YDG Cymru](#) wedi llunio nifer o fewnwelediadau ac adroddiadau data sy'n defnyddio data gweinyddol cysylltiedig ac sy'n gysylltiedig â chyfranogiad mewn addysg drydyddol sy'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth. Lle bo'n bosibl ac ar gael ar adeg ysgrifennu, mae'r canfyddiadau hyn wedi'u syntheseiddio yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau Mewnwelediad Data i archwilio'r Gymraeg a dilyniant i addysg uwch
- Symud ymlaen: Pwy sy'n derbyn cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn dilyn addysg orfodol?
- [Presenoldeb Blwyddyn 11 a dilyniant i addysg ôl-16: Medi 2016 i Awst 2024](#)
- [Rôl Mathemateg, Gwyddoniaeth, a Chyrhaeddiad TGAU Saesneg/Cymraeg mewn Dilyniant Pwnc Ôl-16](#)

3. Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae canfyddiadau o bob rhan o'r ffrwd waith dystiolaeth wedi cael eu hystyried yn erbyn y cwestiynau ymchwil. Canolbwyntiodd y synthesis ar ddysgwyr sydd â'u domisil yng Nghymru a'u cyfranogiad mewn addysg drydyddol. Ar gyfer AU, mae'r ffocws ar gyfranogiad unrhyw le yn y DU. Nid oedd data ar dueddiadau cofrestru mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o fewn y cwmpas.

3.1 Sut mae cyfranogiad wedi newid dros amser? Pa grwpiau dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?

Cyflwynwyd tystiolaeth ar dueddiadau diweddar o ran cyfranogiad mewn addysg addysgol yn fanwl yn adran 2.1 o'r papur [Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru](#) ac mae'n cynnwys tystiolaeth sy'n manylu ar y canlynol:

- twf yn y galw am AB yn enwedig ar lefelau cymwysterau is,
- gostyngiad yn nifer y dysgwyr chweched dosbarth ysgolion a nifer y chweched dosbarth ysgolion eu hunain,
- cyfraddau cyfranogiad is mewn addysg uwch (AU) na gweddill y DU yn 18 oed,
- cyfran uwch o fyfyrwyr sy'n mynd i mewn i AU yn rhan-amser a phan maent yn hŷn

Ers hynny, mae Medr wedi cyhoeddi'r ystadegau diweddaraf ar addysg bellach yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Mae'r datganiad diweddaraf hwn yn rhoi tystiolaeth o barhad y duedd o dwf yn y galw am AB, gyda dysgwyr AB amser llawn yn cynyddu i'r lefel uchaf erioed, a data dros dro yn awgrymu parhad pellach yn 2025/26 ([Medr, 2026](#)). Mae niferoedd AB amser llawn Lefel 2 yn parhau i godi. Gostyngodd nifer y dysgwyr rhan-amser mewn AB yn 2024/25 am y tro cyntaf mewn 4 blynedd.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu mewnwelediadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â demograffeg a chynrychiolaeth dysgwyr mewn addysg drydyddol, gyda gwahaniaethau amlwg mewn llwybrau dysgwyr ar gyfer gwahanol nodweddion dysgwr, a ddisgrifir ym mhennod 4.

Yn ogystal, ceir tystiolaeth o amrywioldeb rhanbarthol mewn cyfranogiad. Mae gwahaniaethau rhanbarthol amlwg ar draws rhanbarthau economaidd Cymru o ran cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)³.

³ Y ffynhonnell ddiffiniol ar gyfer gwybodaeth am NEET [yw'r datganiad ystadegol cyntaf blynyddol, Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#), sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i amcangyfrif

Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o bobl ifanc NEET (15.4% yn y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ym mis Medi 2025) a De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfradd isaf, sef 12.8% ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)). Yn yr un modd, mae dadansoddiad o ddata Arolwg Cychfan Gyrfa Cymru yn dangos amrywiad sylweddol mewn cyfraddau NEET ar draws awdurdodau lleol, sy'n gysylltiedig yn gryf â lefelau amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Ymddengys fod ffactorau sy'n gysylltiedig â mynediad, gan gynnwys trafnidiaeth ac agosrwydd at addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth, hefyd yn cyfrannu at amrywiaeth leol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. ([Gyrfa Cymru, 2025](#)). Wrth edrych ar [ddilyniant i AU o fewn 4 blynedd i ddiwedd cyfnod allweddol 4](#), Blaenau Gwent a Thorfaen sydd â'r gyfran isaf o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 sy'n symud ymlaen i AU (31.5% a 32.1% yn y drefn honno), a Bro Morgannwg a Chaerdydd sydd â'r gyfran uchaf (48.9% a 49.6% yn y drefn honno) ([Ystadegau Cymru, 2026](#)).

Mae mewnwelediadau ychwanegol yn benodol ar ganlyniadau cyfranogiad yn cynnwys:

- Cynnydd o 5% yn nifer y cymwysterau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU yn 2024/25 oherwydd cynnydd mewn cymwysterau israddedig, ac mae nifer y cymwysterau ôl-raddedig a gyflawnwyd yn parhau i ostwng ([Medr, 2026](#))
- Ar gyfer graddedigion a ymatebodd i arolwg Canlyniadau Graddedigion 2022/23, roedd 70% o'r ymatebwyr o Gymru mewn cyflogaeth am dâl, 6% yn gwneud astudiaethau pellach, roedd 11% yn gwneud cyfuniad o waith ac astudiaethau pellach, ac roedd 4% yn ddi-waith. Mae'r ffigurau hyn yn debyg yn gyffredinol i raddedigion o Loegr gydag ychydig yn llai o raddedigion o Gymru yn ddi-waith o'i gymharu â graddedigion o Loegr ([Medr, 2025](#))

3.2 Beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at addysg drydyddol? Sut mae'r rhwystrau hyn yn wahanol ar draws y sector?

Mae rhwystrau yn ffactorau sy'n atal mynediad at addysg drydyddol a chyfranogiad a dilyniant ynddi. Mae cyfres o adolygiadau tystiolaeth wedi ystyried amrywiaeth o rwystrau strwythurol a rhwystrau sy'n dod i'r amlwg o ran mynediad at addysg drydyddol, ac o ran dilyniant parhaus a chyflawniad o fewn addysg drydyddol. At hynny, archwiliodd gwaith maes gydag amrywiaeth o ddysgwyr a rhanddeiliaid brofiadau a chanfyddiadau o rwystrau.

Mae llawer o rwystrau yn gorgyffwrdd ac yn rhyng-gysylltu a gallant waethgu i leihau cyfranogiad. Nid yw rhwystrau yn benodol i un sector o addysg drydyddol. Fodd

bynag, mae gwahaniaethau yn y ffordd y maent yn amlygu eu hunain ar draws y sector oherwydd natur y rhwystr.

Anghydraddoldeb mewn addysg drydyddol

Mae anghydraddoldeb yn parhau i fod yn un o'r rhwystrau mawr i gyfranogiad mewn addysg drydyddol. Mae bylchau amlwg o ran cyrhaeddiad rhywedd ac anfantais yn llunio llwybrau dysgwyr, ac mae tlodi sydd wedi ymwreiddio yn gwneud mynediad at addysg drydyddol yn anoddach yn systematig. Mae'r anghydraddoldebau strwythurol hyn, a drafodir ym Mhennod 4, yn sail i lawer o'r patrymau cyfranogiad a welwyd ar draws y sylfaen dystiolaeth.

Rhwysterau strwythurol o fewn addysg cyn-16

Mae gan Gymru gyrhaeddiad TGAU is na Lloegr a Gogledd Iwerddon. Er bod y canlyniadau wedi gwella yn 2025 o'i gymharu â 2024, mae cyrhaeddiad yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU (Y Cyd-Gyngor Cymwysterau, 2025). Mae cyrhaeddiad is yn 16 oed yn cyfyngu ar fynediad at Safon Uwch a chymwysterau porth eraill sy'n ofynnol ar gyfer AU. Yn 2024/25, roedd cyfran y dysgwyr a symudodd ymlaen o Flwyddyn 11 i lefelau UG ar ei hisaf mewn wyth mlynedd, ac roedd dilyniant i ddarpariaeth lefel 2 ar ei uchaf ([Medr, 2025](#)).

Mae presenoldeb Blwyddyn 11 yn chwarae rhan ganolog wrth lunio llwybrau dysgwyr ac yn rhagfynegi canlyniadau ôl-16 yn gryf. Mae presenoldeb is yn gysylltiedig â llai o debygolrwydd o symud ymlaen i addysg drydyddol, risg uwch o beidio â chwblhau addysg ôl-16 a mwy o debygolrwydd o ddewis cymwysterau galwedigaethol yn hytrach na chymwysterau lefel UG. Er bod cryfder y cysylltiad presenoldeb-dilyniant wedi gwanhau yn dilyn pandemig COVID-19, mae presenoldeb yn parhau i fod yn rhagfynegydd cryfach na rhyw, ethnigrwydd, cymhwysterau i gael prydau ysgol am ddim, Saesneg fel iaith ychwanegol, hunaniaeth genedlaethol, a chyfrwng iaith yr ysgol ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)).

Tynnodd rhanddeiliaid a gyfrannodd at ymchwil diwygiadau Diamond sylw at bwysau systemig ehangach sy'n llunio dilyniant ôl-16, gan gynnwys presenoldeb ysgol is ers y pandemig, mwy o ddysgwyr Safon UG nad ydynt yn parhau i Safon Uwch; mwy o broblemau ymddygiad a llesiant, a chynnydd mewn addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r ffactorau hyn yn lleihau'r gronfa o ddysgwyr sy'n gallu bodloni gofynion mynediad ar gyfer llawer o lwybrau addysg drydyddol.

“Erbyn i ddysgwyr gyrraedd 16 neu 18 oed, mae llawer eisoes wedi'u hidlo gan y system. Perfformiad TGAU sy'n sbarduno popeth.” [Rhanddeiliad, ymchwildiwgyio Diamond]

Rhwystrau ariannol

Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg ar draws yr amrywiaeth o dystiolaeth oedd, er bod cost astudio yn un o'r pryderon allweddol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, nid oedd cost yn unig yn atal mynediad at addysg drydyddol ond yn hytrach roedd yn llunio sut a phryd mae dysgwyr yn ymgysylltu.

Dywedodd lleiafrif o dderbynwyr LCA mai'r lwfans oedd sail y penderfyniad iddynt aros mewn addysg, gyda'r mwyafrif yn dweud y byddent wedi aros beth bynnag. Fodd bynnag, chwaraeodd y lwfans rôl liniaru sylweddol wrth alluogi cyfranogiad parhaus yn bennaf drwy wrthbwysu costau hanfodol a fyddai fel arall yn rhwystrau i bresenoldeb ac ymgysylltu. Ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r LCA, roedd mwyafrif sylweddol o ymgeiswyr aflwyddiannus a holwyd yn dal wedi dechrau a pharhau â'u hastudiaethau heb gyllid.

Canfu dystiolaeth o waith maes a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond fod cost astudio yn bryder allweddol i ddysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid ac roedd yn effeithio ar benderfyniadau, gan gynnwys ble a beth mae dysgwyr yn dewis astudio. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o bobl a gyfrannodd at yr ymchwil, er bod dyled myfyrwyr yn destun pryder, nid oedd yn atal mynediad i AU. Canfuwyd bod pobl ifanc yn cydnabod gwerth AU ond maent hefyd yn cwestiynu a yw pob gradd yn cynnig enillion da ar eu buddsoddiad. Yn gyfatebol, mae ansicrwydd ariannol, ofn dyled, ac amheuan am ragolygon swyddi i raddedigion yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol.

Ar gyfer cyfranogiad AU ôl-raddedig, roedd mwyafrif y myfyrwyr meistr a addysgwyd a holwyd o'r farn bod eu cymhwyster yn werth ysgwyddo dyled benthyciadau myfyrwyr ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)) ac mae ymchwil ehangach yn awgrymu bod y cyhoedd yn y DU yn goramcangyfrif yn fawr edifeirwch graddedigion ac effaith negyddol dyled prifysgol ar fywydau graddedigion ([HEPI, 2025](#)).

Mae dysgwyr yn ei chael yn fwyfwy angenrheidiol yn ariannol cymryd rhan mewn cyflogaeth am dâl ochr yn ochr â'u hastudiaethau, sy'n awgrymu natur newidiol cyfranogiad mewn addysg drydyddol. Canfu ymchwil fod cymorth cynhaliaeth ledled y DU, a ddarperir i gefnogi myfyrwyr mewn AU i dalu eu costau byw, yn annigonol, hyd yn oed i fyfyrwyr sy'n derbyn y cymorth mwyaf posibl sydd ar gael. I'r rhai sy'n astudio y tu allan i Lundain, mae cymorth cynhaliaeth Cymru yn talu am 65% o gostau myfyrwyr (o'i gymharu â 55% i fyfyrwyr o Loegr) ([HEPI, 2024](#)), ac mae angen mwy na 15 awr yr wythnos o waith am dâl i fyfyrwyr Cymru gyrraedd safon byw sy'n ofynnol ([HEPI, 2025](#)).

Teithio gan ddysgwyr

Daeth materion sy'n gysylltiedig â theithio i le dysgu i'r amlwg fel thema bwysig mewn nifer o adroddiadau ymchwil. Mae hyn yn ailadrodd canfyddiadau o [adroddiad Sgwrs Genedlaethol](#) y Warrant i Bobl Ifanc, lle nododd pobl ifanc mai trafnidiaeth yw'r rhwystr mwyaf cyffredin i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant gyda phobl ifanc yn adrodd nad yw amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus bob amser yn cyd-fynd ag amseroedd dechrau a gorffen cyrsiau ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

- Cyfeiriwyd at gost, dibynadwyedd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn aml fel rhwystr i ddechrau cwrs neu raglen hyfforddi newydd
- Trafnidiaeth oedd yn cyfrif am y nifer a'r gwerth mwyaf o ddyfarniadau a wnaed ar gyfer y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn 2022/23 ([Llywodraeth Cymru, 2024](#))
- Mae pobl ifanc yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus fel eu prif ddull teithio ac felly maent yn fwy agored i niwed o ran costau cynyddol. Gall anfforddiadwyedd trafnidiaeth i ddarparwyr dysgu arwain at bresenoldeb gwael, cyfraddau cadw gwael a pheidio â chwblhau
- Gall cost teithio ddylanwadu ar ddewis dysgwyr incwm isel o lwybr addysg drydyddol yn arbennig; mae dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o ddewis opsiynau cwrs yn nes at y cartref er mwyn arbed ar gostau trafnidiaeth. Yn yr adolygiad o'r LCA, mae dysgwyr ychydig uwchben y trothwy incwm (h.y. nad ydynt yn derbyn LCA) yn disgrifio costau trafnidiaeth fel rhai gormodol, gyda derbynwyr LCA yn dibynnu'n fawr arno i gyrraedd y coleg.

"Mae cost trafnidiaeth yn rhwystr i mi gael dewis rhydd i fynd i'r coleg roeddwn i eisiau mynd iddo" (Ymateb testun agored, arolwg dysgwyr AB 2024)

Ni allaf gael unrhyw swyddi y tu allan i'r dref hon oherwydd nid oes gennyf drafnidiaeth i gyrraedd yno, a byddai trafnidiaeth gyhoeddus yn rhy ddud i mi bob dydd. (Cyfrannwr at Werthusiad Proses o'r Warrant i Bobl Ifanc, 2025)

Rhwysrau gweinyddol

Daeth amrywiaeth o rwysrau gweinyddol i'r amlwg o'r ymchwil.

[Canfu'r adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru \(AB\)](#) fod cyflwyno cais ar-lein wedi gwella'r profiad ymgeisio, ond mae rhai grwpiau gan gynnwys dysgwyr hŷn, ffoaduriaid, a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn wynebu mwy o rwysrau i wneud cais. Mae problemau cyffredin yn cynnwys dryswch rhwng cofrestru a chais llawn, heriau wrth ddarparu dogfennaeth gymhwystra, a'r angen am ffurflenni hygyrch neu hawdd eu deall.

Mae cymhlethdod systemau cyllid myfyrwyr yn strwythurol anfanteisiol i ddysgwyr nad oes gan eu teuluoedd brofiad AU neu lythrennedd ariannol, yn enwedig aelwydydd incwm is ([LLywodraeth Cymru, 2026](#)).

Roedd rheolau gweinyddol ynghylch cyllid myfyrwyr yn golygu bod rhai grwpiau dysgwyr yn nodi eu bod yn teimlo dan anfantais o'i gymharu ag eraill. Er enghraifft, roedd cyfraniadau at werthuso diwygiadau Diamond yn cynnwys y gall defnyddio incwm aelwyd yn hytrach nag incwm unigol i asesu cymhwysra roi myfyrwyr sydd â phartneriaid dan anfantais, yn enwedig lle nad yw cyllid yn cael ei rannu. Roedd rhai myfyrwyr rhan-amser hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi oherwydd llai o fynediad at fudd-daliadau neu ostyngiadau treth y cyngor, gan ei gwneud yn anoddach cydbwysu astudio â rhwymedigaethau ariannol.

3.3 Meysydd o cryfder a meysydd i'w gwella yng Nghymru

Wrth werthuso ymyriadau, mae ffactorau cyd-destunol amlwg yn ei gwneud yn anodd priodoli canlyniadau i un ymyrraeth neu bolisi; er enghraifft, roedd rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd ynysu effaith diwygiadau Diamond oddi wrth ffactorau allanol ehangach a thueddiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae cymorth ariannol yn cefnogi cyfranogiad

Canfu gwerthusiadau o becynnau cymorth ariannol dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn awgrymu nad yw cymorth ariannol yn unig yn ddigonol: mae'n gweithio orau pan gaiff ei gyfuno ag allgymorth, arweiniad, a chymorth cofleidiol.

- Canfuwyd bod cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) yn galluogi nifer fawr o fyfyrwyr i aros mewn addysg bellach gyda derbynwyr grantiau yn aml yn symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch, gan gynnal llwybrau dysgu. Canfuwyd bod y cynllun yn llenwi bwlch clir mewn cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n oedolion sy'n ceisio dychwelyd i AB, neu symud ymlaen mewn AB, gan gyfrannu at amcan Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer yr oedolion o oedran gweithio sy'n cyflawni cymhwyster Lefel 3
- Mae Diwygiadau Diamond wedi cryfhau cyfranogiad rhan-amser ac ôl-raddedig, gyda thystiolaeth bod cymorth ariannol gwell wedi chwarae rhan sylweddol wrth alluogi mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, er bod rhai rhwystrau yn parhau.
- Canfuwyd bod LCA yn cefnogi cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru drwy leihau rhwystrau costau, hybu presenoldeb a chadw, cefnogi grwpiau agored i niwed a chynyddu sefydlogrwydd a pharodrwydd ar gyfer dilyniant mewn llwybrau addysg drydyddol. Nododd sawl ysgol fod derbynwyr LCA yn gwneud cais am

brifysgol, ac roedd rhai yn defnyddio LCA ar gyfer mynd i ddiwrnodau agored, a gododd ddyheadau tuag at AU.

- Daeth materion i'r amlwg ynghylch effaith trothwyon digyfnewid gyda grŵp culach, llai o ddysgwyr bellach yn gallu cael gafael ar gymorth ariannol. Er enghraifft, mae nifer y ceisiadau llwyddiannus ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) wedi gostwng dros amser (gostyngodd 18% rhwng blwyddyn academiaidd 2023 i 2024 a blwyddyn academiaidd 2024 i 2025), gyda nifer y dysgwyr a gefnogir wedi haneru dros y degawd diwethaf (derbyniodd 3.9% o ddysgwyr 19 oed neu drosodd Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn academiaidd 2024 i 2025) ac mewn AU, mae grantiau bellach yn cyfrif am gyfran lai o'r pecyn cymorth cyffredinol.

Dysgu rhan-amser a hyblyg fel dulliau allweddol ar gyfer cyfranogiad

Roedd mwy o fuddsoddiad mewn llwybrau rhan-amser yn ehangu mynediad yng Nghymru, sy'n parhau i fod â chyfrannau uwch o fyfyrwyr AU aeddfed a rhan-amser na Lloegr.

Mae cofrestriadau rhan-amser wedi tyfu'n sylweddol ers 2018/19, ac wedi dyblu ers 2017/18, gyda'r Diwygiadau Diamond yn chwarae rhan ganolog yn yr ehangu hwn, gyda Chymru bellach â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr rhan-amser yn y DU.

Mae'r galw ar draws darparwyr addysg uwch am astudio rhan-amser yn anwastad. Mae ymgeiswyr rhan-amser yn cyfrif am 34–40% o'r holl ymgeiswyr israddedig yng Nghymru (2016/17–2023/24) a mwy na hanner yr holl fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio yn y Brifysgol Agored. Mae tua hanner poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol Agored yn ddysgwyr ehangu mynediad, gan gynnwys y rhai sydd â chymwysterau blaenorol is, gofalwyr, a myfyrwyr anabl ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)).

Mae tystiolaeth o'r [gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond](#) yn dangos bod llawer o fyfyrwyr yn dilyn astudiaethau rhan-amser oherwydd angenrheidrwydd yn sgil gwaith ac amgylchiadau personol. Adroddodd dysgwyr fod argaeledd cyllid myfyrwyr rhan-amser yn hanfodol i'w gallu i astudio. Canfuwyd bod llwybrau rhan-amser yn cefnogi'n arbennig ddysgwyr aeddfed, rhieni a gofalwyr, dysgwyr ag anableddau neu gyflyrau iechyd, dysgwyr incwm is a'r rhai sydd heb gymwysterau ffurfiol sydd angen pwynt mynediad mwy hyblyg.

“Rwy'n rhiant sengl gyda thri o blant. Byddai astudio amser llawn yn ormod. Dewisais astudio'n rhan-amser i weithio o gwmpas cyfrifoldebau gofal.” [Gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond]

“Mae'r hyblygrwydd yn wych. Gyda'r Brifysgol Agored, gallaf gymryd seibiannau neu astudio ar gyflymder lleiaf. Gallaf weithio, bod yno i fy merch, a symud ymlaen ar fy

nghyflymder fy hun heb ormod o straen. I mi, mae'r hyblygrwydd yn drech na'r ystyriaethau ariannol."

Nododd darparwyr hefyd y galw cynyddol am ddarpariaeth ran-amser fyrrach a mwy hyblyg, sy'n cyd-fynd â'r diwydiant, yn enwedig rhaglenni a gynlluniwyd mewn partneriaeth â chyflogwyr yn hytrach na graddau amser llawn safonol a gynigir yn rhan-amser. Fodd bynnag, adroddodd darparwyr heriau gyda darparu darpariaeth hyblyg, fodiwlaid neu hybrid, sy'n gostus ac nad yw'n cael ei chefnogi'n ddigonol gan y model cyllido presennol.

Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid cryfhau ehangu mynediad ymhellach drwy ddiwygiadau sy'n cefnogi llwybrau astudio hyblyg yn well, gan gynnwys pwyntiau mynediad lluosog y tu allan i'r flwyddyn academiaidd draddodiadol, gan fod o fudd i fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser, yn cymryd seibiannau gyrfa, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Roedd y model cyllido ar gyfer darpariaeth israddedig rhan-amser yn cael ei ystyried yn gymhleth, ac nid oedd yn adlewyrchu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â chyflawni. Ystyriwyd bod y model cyllido ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser yn gymhleth, gan adlewyrchu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â'i chyflwyno.

Diffyg ymwybyddiaeth systemig gynnar o ddulliau cymorth ariannol

Mae paradocs: Cymru sy'n darparu'r pecyn cymorth cynhaliaeth mwyaf hael o holl wledydd y DU ac eto ar gyfer pobl ifanc 18 oed, mae ganddi'r gyfradd cyfranogiad israddedig amser llawn isaf. Un canfyddiad amlwg ar draws y ffrwd waith dystiolaeth yw diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth *gynnar* o'r cymorth ariannol sydd ar gael a allai helpu i esbonio'r paradocs hwn, yn enwedig i ddysgwyr dan anfantais.

"Mae'n becyn gwych, ond nid yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigon da. Nid yw'r neges yn cyrraedd y bobl sydd fwyaf angen ei chlywed." [Gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond]

Canfu ymchwil ar ddiwygiadau Diamond fod dealltwriaeth o gyllid myfyrwyr a thelerau ad-dalu yn aml yn gyfyngedig, yn enwedig ymhlith darpar fyfyrwyr a rhieni/gwarcheidwaid o aelwydydd incwm is. Canfu gwaith maes gyda dysgwyr blwyddyn 12 a 13 awydd cryf am wybodaeth am gyllid myfyrwyr cliriach a mwy tryloyw, gyda llawer yn disgrifio'r system fel un ddryslyd a llethol. Roedd dysgwyr a gyfwelwyd yn cael trafferth gwahaniaethu rhwng mathau o fenthyciadau a grantiau, roedd llawer yn aneglur ynghylch telerau ad-dalu, ac yn teimlo nad oeddent yn barod ar gyfer rheoli arian yn annibynnol. Argymhelliad allweddol i Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, oedd ystyried sut y gellid gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymorth cyllid i fyfyrwyr.

"Rhaid i ni siarad am gyllid heb eu dychryn nhw - gan ddangos ei fod yn gymorth, nid dyled. Rhaid i'r neges honno ddechrau'n gynnar."

Roedd tystiolaeth yn tynnu sylw at gyfleoedd i dargedu gwybodaeth yn well i'r rhai sy'n cynghori dysgwyr i wella eu hymwybyddiaeth o ran cymorth ariannol a chymhwysra. Adroddodd dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a gyfrannodd at yr adolygiad o'r LCA achlysuron lle cawsant wybodaeth anghyson neu anghywir gan weithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Yn yr un modd, yn yr adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, codwyd pryderon ynghylch effaith camwybodaeth ar dueddiad dysgwyr i wneud cais am gymorth ariannol.

"Dylid gwneud yn glir a yw gwneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn effeithio ar fudd-daliadau dysgwyr gan fod gwybodaeth sy'n gwrthdaro ar hyn o bryd am dderbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a budd-daliadau. Yn enwedig i'r rhai sydd â dibynyddion. Mae hyn yn atal pobl rhag gwneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu hyd yn oed ddychwelyd i astudiaethau."[Adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru]

Mae amseru yn her bellach. Dim ond *ar ôl* dechrau eu cwrs y daeth llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o gymorth ariannol, gan gyfyngu ar ei ddylanwad ar wneud penderfyniadau ôl-16. Ymhlith disgyblion Blwyddyn 11 a gyfrannodd at yr [adolygiad o'r LCA](#), prin iawn oedd eu gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael a chlywodd tua hanner y derbynwyr coleg AB am LCA am y tro cyntaf yn ystod yr wythnos gofrestru. Roedd dysgwyr yn teimlo y byddai ymwybyddiaeth gynharach, yn ddelfrydol o flwyddyn 9, yn helpu teuluoedd i gynllunio, yn enwedig lle gallai cyllid gyfyngu ar gyfranogiad fel arall. Yn yr un modd, canfu'r [adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru \(AB\)](#) ymwybyddiaeth isel ymhlith darpar ymgeiswyr ac amlygodd yr angen am fwy o adnoddau hyrwyddo digidol a hygyrch.

Anghysondebau ar draws y sector

Daeth nifer o anghysondebau i'r amlwg drwy gydol yr ymchwil a all lunio cyfranogiad a chreu gostyngiadau sydyn ac anghydraddoldebau ar draws llwybr dysgwr. Mae cyfraddau cyfranogiad yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion, colegau AB, ac awdurdodau lleol, gyda gwahaniaethau rhwng sefydliadau yn aml yn fwy na'r rhai a esbonnir gan nodweddion neu gyraeddiad dysgwyr unigol.

Mae'r cymorth ar gyfer costau trafndiaeth yn amrywio'n fawr. Oherwydd dosbarthiad daearyddol darpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru, mae carfanau ysgolion a cholegau yn aml yn cynnwys dysgwyr o fwy nag un awdurdod lleol. O ganlyniad, gall dysgwyr sy'n mynychu'r un darparwr dderbyn lefelau gwahanol iawn o gymorth yn dibynnu ar eu hawdurdod lleol, gyda rhai ardaloedd yn cynnig trafndiaeth wedi'i ariannu'n llawn ac eraill yn darparu dim. Adroddodd sawl Sefydliad Addysg Bellach (SAB) eu bod yn ariannu costau trafndiaeth yn rhannol eu hunain i liniaru'r gwahaniaethau hyn. Gwelwyd amrywiad tebyg mewn ffioedd teithio awdurdodau lleol ac mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth wedi'i hailstrwythuro,

gan arwain at un achos lle roedd cludiant am ddim ar gael i'r coleg AB lleol ond nid i'r chweched dosbarth ysgol.

Mae trothwyon cymorth ariannol hefyd yn brin o gysondeb. Mae trothwyon incwm yn wahanol ar draws cyllid myfyrwyr LCA, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) ac AU. Mewn AB yn benodol, mynegwyd pryder bod y gostyngiad mewn trothwyon incwm yn tarfu ar ddilyniant pan fydd dysgwyr incwm isel yn cyrraedd 19 oed.

“Ar gyfer un plentyn gall gael hyd at £23,401 o incwm ar LCA, ond ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mae'n gostwng i £18,370... mae'n chwerthinllyd. Rydym yn eu cefnogi un flwyddyn, yna maent yn symud ymlaen ac rydym yn dweud, mae'n ddrwg gennym, nid ydych yn gymwys mwyach.”

4. Demograffeg dysgwyr a chyfranogiad

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn parhau i ddangos anghydraddoldebau cyfranogiad parhaus yn seiliedig ar ddemograffeg dysgwyr. Cyflwynir tystiolaeth ar anghydraddoldebau yn y papur [Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru](#); dim ond mewnwelediadau ychwanegol at y papur hwn sy'n cael eu cyflwyno yma. Bydd darlun mwy cyfredol ar degwch mewn addysg drydyddol yn cael ei ddarparu gan y gwaith cysylltu data a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i YDG Cymru y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2026.

Roedd defnyddio dull croestoriadol cynhwysfawr y tu hwnt i gwmpas y ffrwd waith. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn darparu arwyddion ar gyfer ymchwil ddilynol fanwl bellach.

4.1 Amddifadedd

Mae statws economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd yn un o'r penderfynnyddion cryfaf o gyfranogiad mewn addysg drydyddol, gan effeithio ar ddilyniant, llwybrau a dewisiadau o fewn addysg drydyddol.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol ym mhob cam o addysg. Yng Nghymru a'r DU yn fwy cyffredinol, mae gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol yn amlwg yn gynnar yn ystod plentyndod ac ar draws pob cam o addysg; er enghraifft, mae Astudiaeth Cohort y Mileniwm yn dangos tystiolaeth o wahaniaethau economaidd-gymdeithasol mewn cyrhaeddiad yn dair oed.

Mae'r bwlch cyrhaeddiad wedi ehangu ers pandemig COVID-19 ac mae llai o ddysgwyr Cymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni graddau TGAU ar A/7 neu uwch (7% o'i gymharu â 22.3% ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys), a C/4 neu uwch (39.0% o'i gymharu â 68.3% ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys),

o'i gymharu â'u cyfoedion ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)). Roedd y bwlch mewn canlyniadau TGAU rhwng disgyblion difreintiedig a disgyblion eraill yng Nghymru yn cyfateb i 22-23 mis o gynnydd addysgol yn 2019, yn sylweddol fwy na'r bwlch yn Lloegr (19 mis) ac yn ddigyfnewid i raddau helaeth dros y degawd blaenorol ([Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2024](#)).

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o fynychu addysg drydyddol o'i gymharu â dysgwyr nad ydynt yn gymwys ac mae'r bwlch cyfranogiad hwn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mynychodd llai o ddysgwyr yn 2024/2025 y Chwched Dosbarth o'i gymharu â cholegau AB, ac mae hyn yn arbennig o wir am ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd dysgwyr o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig⁴ yng Nghymru wedi'u gorgynrychioli mewn addysg bellach amser llawn ac roedd dysgwyr o'r cymdogaethau lleiaf difreintiedig wedi'u tangynrychioli ([Medr, 2025](#)). Yn haf 2025, roedd y bylchau cyrhaeddiad yn y graddau uchaf a gyflawnwyd ar UG a Safon Uwch rhwng dysgwyr yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn gulach nag yn haf 2024. ([Cymwysterau Cymru, 2025](#)).

Mae rhwystrau cymdeithasol yn effeithio ar ddilyniant ôl-16 a chanlyniadau addysg dysgwyr Cymru o gefndiroedd dan anfantais gymdeithasol ([OECD, 2025:11](#)). Mae data PISA 2022 yn tynnu sylw at y ffaith bod dysgwyr Cymraeg o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel yn llai tebygol o drafod eu cynlluniau gyrfa gydag eraill, a chymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu gyrfa, ac mae ganddynt ddyheadau addysg a chyflogaeth is ([Sefydliad Polisi Addysg Uwch, 2024](#); [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2025](#)).

Er bod cynnydd wedi bod yn Lloegr yn nifer y myfyrwyr difreintiedig sy'n cael lle mewn prifysgol, yng Nghymru bu gostyngiad cyson ers 2023 ([UCAS, 2024](#)). Mae dysgwyr yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn llai tebygol o symud ymlaen i'r brifysgol na chyfoedion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ([HEPI, 2024](#)) a'r bwlch cyfranogiad AU yn 2025 oedd y mwyaf ers i gofnodion ddechrau yn 2005 ([HEPI, 2024](#); [Llywodraeth y DU, 2025](#)). I'r rhai sy'n cofrestru mewn AU, mae bwlch pellach mewn cyrhaeddiad AU sydd wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llai o ddysgwyr dan anfantais yn cyflawni gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch o'i gymharu â dysgwyr mwy breintiedig. Mae'r bwlch yn ehangach yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU ([HESA, 2023](#)).

⁴ Amddifadedd wedi'i ddiffinio gan ddefnyddio MALIC 2019 [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd\): 2019 | LLYW.CYMRU](#)

Ar ôl graddio, canfuwyd bod ymatebwyr israddedig amser llawn i arolwg Canlyniadau Graddedigion 2022/23 o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth amser llawn neu astudiaethau pellach, ac yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ran-amser, na'r rhai o'r cymdogaethau lleiaf difreintiedig ([Medr, 2025](#)).

4.2 Ethnigrwydd

[Mae Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol](#) yn nodi'r weledigaeth i Gymru fod yn wlad wrth-hiliol. Yn y [diweddariad 2024](#) ar ymchwiliad a thystiolaeth mewn lleoliadau addysg, tynnwyd sylw at lefelau cyrhaeddiad academiaidd dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel maes pryder. Yn 2025, roedd pob un o'r wyth prifysgol yng Nghymru wedi cydweithio i ennill gwobr [Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol](#).

Mae patrymau cyfranogiad yn amrywio'n sylweddol ar draws grwpiau ethnig. O'i gymharu â grwpiau eraill, cyflawnodd dysgwyr yn y grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig" y canlyniadau uchaf ym mhob trothwy gradd TGAU allweddol yn haf 2025 ([Cymwysterau Cymru, 2025](#)). Rhwng 2017/18 a 2024/25, dangosodd dysgwyr o gefndiroedd Asiaidd - yn enwedig y rhai o gefndiroedd Bangladeshidd, y cyfraddau dilyniant uchaf o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol. Mewn cyferbyniad, dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig oedd â'r cyfraddau dilyniant isaf. Ymhlith y rhai a wnaeth symud ymlaen, roedd y llwybrau'n wahanol iawn: er enghraifft, astudiodd 92% o ddysgwyr o gefndiroedd Indiaidd yn 2022/23 ar lefel 3, lefelau UG yn bennaf, ond dim ond 22% o ddysgwyr Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig wnaeth hynny. Roedd dysgwyr o grwpiau ethnig Gwyn neu Gymysg, Lluosog, yn fwy tebygol o fynd i mewn i AB alwedigaethol neu ddysgu seiliedig ar waith ([Medr, 2025](#)). Bu tuedd ar i fyni dros amser yng nghyfran yr ymgeiswyr Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) sy'n nodi eu hethnigrwydd fel Mwyafrif Byd-eang e.e. 21% yn 2023/2024, i fyni o 12% yn ystod 2016/17 sy'n nodi sylfaen i myfyrwyr mwy amrywiol.

Roedd dysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol yn fwy amrywiol yn ethnig na phoblogaeth Cymru yn gyffredinol. Roedd dysgwyr o gefndiroedd Du yn fwy tebygol o fod yn cymryd prentisiaethau, addysg bellach neu ddysgu cymunedol awdurdodau lleol yn 2024/2025 o'i gymharu â dysgwyr o gefndiroedd ethnig eraill ([Medr, 2026](#)).

Mae cyfraddau NEET yn wahanol ar draws grwpiau ethnig ^[gweler troednodyn 3]. Yn y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, amcangyfrifwyd bod 14.3% o bobl ifanc Wyn yn NEET o'i gymharu â 9.8% o bobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)).

Yn debyg i AB, mae nifer cynyddol o fyfyrwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cymryd rhan mewn AU. Fodd bynnag, er gwaethaf amrywiaeth ethnig cynyddol, mae anghydraddoldebau parhaus yn parhau. Mae cyfraddau cynnig mewn AU yn is ar gyfer grwpiau Asiaidd, Du, ac ethnig eraill nag ar gyfer dysgwyr Gwyn. Mae canlyniadau gradd yn dangos gwahaniaethau hirsefydlog; rhwng 2016/17 a 2023/24, roedd myfyrwyr Gwyn yn gyson yn fwy tebygol o ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf na chyfoedion o gefndir ethnig arall, a myfyrwyr Du oedd y mwyaf tebygol o dderbyn graddau ail ddosbarth is neu drydydd dosbarth ([Medr 2025](#)).

4.3 Rhyw

Mae tangynrychiolaeth dynion mewn addysg drydyddol yn parhau ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Mae'r bwlch cyfranogiad rhwng dynion a menywod yn ymddangos ar draws y rhan fwyaf o fesurau ac nid yw wedi culhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mewn rhai achosion mae wedi ehangu. Yn haf 2025, roedd cyrhaeddiad TGAU yn uwch ar gyfer merched o'i gymharu â bechgyn ar draws nifer o fesurau ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)). Fodd bynnag, rhwng 2018/19 a 2024/25 culhaodd y bwlch dangosydd Capió 9 rhwng bechgyn a merched ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)).

Pontio yn 16 oed

Mae cyfran gyson uwch o ferched yn symud ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, fel arfer gan ddau i dri phwynt canran.

Mae gwahaniaethau rhyw yn amrywio yn dibynnu ar fath a lefel y ddarpariaeth ôl-16:

- Mae merched yn fwy tebygol o astudio ar lefel 3 o'i gymharu â bechgyn; Astudiodd 71% o ferched ar lefel 3 o'i gymharu â 60% o fechgyn yn 2022/23 ([Medr, 2025](#))
- Mae bechgyn yn fwy tebygol o symud ymlaen i AB alwedigaethol neu ddysgu seiliedig ar waith
- Mae dewisiadau pwnc yn wahanol yn ôl rhyw. Mewn AB, prentisiaethau a dysgu cymunedol, dim ond 1 o bob 4 cymhwyster STEM sy'n cael eu cymryd gan ddysgwyr benywaidd ([Medr, 2026](#)).
- Roedd menywod wedi'u gorgynrychioli o ran derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn AB. Roedd ymatebwyr benywaidd yr arolwg hefyd yn fwy tebygol na gwrywod o adrodd dilyniant i gymwysterau lefel 6 neu 7 ar ôl derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn AB ([Llywodraeth Cymru, 2026](#))
- Roedd dysgwyr benywaidd ychydig yn fwy tebygol o dderbyn LCA, gan adlewyrchu patrymau cofrestru AB cyffredinol
- Mae tystiolaeth arolwg yn dangos bod merched 16-19 oed mewn addysg ôl-16 yn adrodd sgoriau llesiant is na bechgyn a mwy o darfu ar eu haddysg o

ganlyniad i hynny. Ehangodd y bwlch sgôr llesiant rhwng ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd rhwng 2020 a 2024 ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

Addysg Uwch

Mae'r bwlch gwrywaidd-benywaidd yn ehangu ymhellach wrth gael mynediad at AU. Yn 2024, aeth 23.4% o ddynion ifanc Cymru i mewn i addysg uwch o'i gymharu â 36.2% o fenywod ifanc ([UCAS, 2024](#)) ac mae menywod yn parhau i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg uwch erbyn 30 oed ([Medr, 2025](#)) ac yn fwy tebygol o ennill graddau uwch.

Dynion ifanc Gwyn difreintiedig yw'r lleiaf tebygol o unrhyw grŵp o fynd i'r brifysgol, gyda rhwystrau'n gysylltiedig â chyrhaeddiad blaenorol is, cyfraddau uwch o wahardd o'r ysgol, modelau rôl cyfyngedig, ansicrwydd ynghylch canlyniadau cyflogaeth a phryderon ariannol ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)).

Fodd bynnag, nid yw enillion mewn mynediad a chyrhaeddiad i fenywod eto yn trosi i degwch mewn dilyniant, enillion cyfartal neu lesiant: mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn llawer o bynciau ac yn parhau i brofi anfanteision yn y farchnad lafur er gwaethaf cyrhaeddiad addysgol uwch ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)).

4.4 Oedran

Mae gwahaniaethau yn yr oedran y mae dysgwyr yn ymgysylltu â gwahanol sectorau addysg drydyddol. Yn 2024/25, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn AB amser llawn yn 16 neu 17 oed. Mae prentisiaethau yn cyrraedd uchafbwynt yn 18 oed, ond ceir llawer o ddysgwyr hŷn. Mae addysg bellach ran-amser a dysgu cymunedol awdurdodau lleol yn cael ei gymryd yn fwyaf cyffredin gan ddysgwyr yn eu 30au ([Medr, 2026](#)).

Ym maes AU, mae gan Gymru gyfran uwch o fyfyrwyr AU aeddfed (21+ oed) a rhan-amser na Lloegr yn 2024/25 ([HESA, 2026](#)).

4.5 Anabledd ac ADY/AAA

Yn 2002 mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model cymdeithasol o anabledd, er bod y rhan fwyaf o'r setiau data presennol yn parhau i gofnodi anabledd yn seiliedig ar y model meddygol. Cyhoeddwyd y [Cynllun Hawliau Pobl Anabl 2025 i 2035](#) ym mis Rhagfyr 2025 ac mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer addysg, incwm a chyflogaeth.

Cyfraddau anabledd a chyfranogiad

Mae pobl ifanc anabl yn parhau i fod yn llawer mwy tebygol o fod yn NEET na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl [gweler troednodyn 3]. Yn y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, roedd 18.0% o bobl anabl 16–18 oed a 39.9% o bobl

anabl 19–24 oed yn NEET ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)). Roedd pobl anabl o oedran gweithio hefyd yn fwy tebygol o gael unrhyw gymwysterau na phobl nad ydynt yn anabl ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)).

Mae gan ddysgwyr sydd â darpariaeth AAA neu ADY hefyd gyfraddau is o ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol: yn 2024/25, roedd dilyniant bum pwynt canran yn is nag i'r rhai heb AAA neu ADY. Roedd dysgwyr ag AAA neu ADY yn fwy tebygol o symud ymlaen i golegau AB ac yn llai tebygol o astudio ar lefel 3 (32%, o'i gymharu â 73% o ddysgwyr heb AAA/ADY). Roeddent hefyd yn fwy tebygol o adael eu rhaglen addysg drydyddol heb ei chwblhau.

Mwy o adrodd am anabledd mewn addysg drydyddol

Mae cyfraddau adrodd am anabledd mewn addysg drydyddol wedi cynyddu. Mewn addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol, mae gan 1 o bob 6 o ddysgwyr anhawster dysgu neu anabledd wedi'i hunangofnodi, y mwyaf ers dechrau'r ystadegau hyn, gyda charfanau dysgwyr yn fwy amrywiol na phoblogaeth Cymru ([Medr, 2026](#)). Gall y cynnydd adlewyrchu cyfraddau datgelu uwch ac adroddiadau cynyddol o gyflyrau iechyd meddwl. Mae ceisiadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) hefyd yn dangos tuedd ar i fyny yng nghyfran yr ymgeiswyr sy'n nodi eu bod yn anabl.

Mae cyfran y cofrestriadau i AU gan fyfyrwyr o Gymru y gwyddys bod ganddynt anabledd wedi bod yn cynyddu'n gyson; roedd un o bob pedwar cofrestriad yn 2024/25 gan fyfyrwr ag anabledd hysbys ([Medr, 2026](#)).

Anabledd a rhwystrau i gyfranogi

Mae dysgwyr anabl yn wynebu amrywiaeth o rwystrau sy'n effeithio ar gyfranogi, cadw a dilyniant mewn addysg drydyddol.

Cyflawnodd 32% o ddysgwyr â darpariaeth ADY/AAA TGAU gradd C/4 neu uwch ([Cymwysterau Cymru, 2025](#)).

Mae tystiolaeth arolwg yn dangos y gall dysgwyr 16–19 oed â niwroamrywiaeth gael trafferth gyda chanolbwyntio, cymhelliant, rheoleiddio emosiynol, a heriau cymdeithasol, sy'n effeithio ar ddysgu a llesiant ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

"Rwy'n cael trafferth gyda fy nghanolbwyntio a rhaid i mi gymryd seibiannau bob awr i gadw'n gynhyrchiol, ond yn aml nid yw'r ysgol yn darparu ar gyfer hyn." [Arolwg profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16, 2024]

Mae dysgwyr anabl yn wynebu rhwystrau hygrychedd, profiad gwael fel myfyrwyr, a chanlyniadau llai yn y farchnad lafur o'i gymharu â chyfoedion nad ydynt yn anabl, gyda myfyrwyr anabl ymhlith y grwpiau myfyrwyr lleiaf bodlon er gwaethaf gwelliannau

mewn cymorth sefydliadol ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)). Mae diwygiadau Diamond yn darparu cymorth yn benodol i ddysgwyr anabl i gydnabod y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hwynebu. Er gwaethaf hyn, canfu tystiolaeth o'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond fod dysgwyr anabl yn adrodd mwy o bryder ynghylch costau byw ac ansicrwydd ynghylch cymorth.

Roedd rhai dysgwyr anabl yn gweld y broses ymgeisio ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) yn anhygyrch oherwydd iaith gymhleth neu addasiadau cyfyngedig ar gyfer ADY, dyslecsia neu anghenion eraill.

Ar lefel y DU, mae myfyrwyr anabl yn fwy tebygol o ohirio mynediad at AU oherwydd oedi wrth roi cymorth ar waith. Ar wahân, mae tystiolaeth yn awgrymu bod dysgwyr anabl sy'n mynd i mewn i AU yn aml yn dod o gefndiroedd mwy cyfoethog, sy'n awgrymu bod rhwystrau systemig yn effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr anabl difreintiedig ([UCAS, 2022](#)).

Mae anabledd yn aml yn cyd-ddigwydd â salwch meddwl, cymwysterau isel, ac anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae gan fwy na 60% o bobl ifanc anabl NEET gyflwr iechyd meddwl.

Gall rheolau sy'n seiliedig ar bresenoldeb ar gyfer LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) roi dysgwyr anabl dan anfantais anghymesur. Tynnodd staff y ganolfan ddysgu sylw at yr angen am fwy o hyblygrwydd ynghylch gofynion presenoldeb a nodwyd nad yw gwerthoedd grant presennol bob amser yn adlewyrchu'r costau ychwanegol y mae rhai dysgwyr anabl yn eu hwynebu.

Mae trafndiaeth yn rhwystr mwy sylweddol i ddysgwyr anabl. Mae gan lawer o bobl ifanc anabl lai o hyder wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn teimlo'n llai diogel wrth deithio, neu'n wynebu anhygyrchedd ffisegol, gan gyfyngu ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol a mynediad at gyfleoedd cyfoethogi fel interniaethau.

System Anghenion Dysgu Ychwanegol ac addysg ôl-16

Fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol o'r system ADY, archwiliodd arolwg ymarferwyr brofiadau o weithredu diwygiadau ADY, gan gynnwys mewn lleoliadau ôl-16 ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)). Cytunodd tua hanner yr ymatebwyr o SAB a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol fod trefniadau pontio o'r ysgol uwchradd i AB yn cynnal parhad y ddarpariaeth ADY. Roedd hyn yn llai cadarnhaol na safbwyntiau ar bontio o'r ysgol gynradd i'w ysgol uwchradd.

Roedd safbwyntiau gwahanol rhwng awdurdodau lleol (ALI) a SAB/sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol ar ddyletswyddau ôl-16. Roedd ymatebwyr ALI yn llai tebygol o

adrodd eu bod yn deall cyfrifoldebau eu sefydliad a gwnaethant dynnu sylw at ddiffyg canllawiau clir. Nodwyd llwyth gwaith, capasiti ac adnoddau hefyd fel pwyntiau pwysau: dim ond hanner yr ymatebwyr oedd yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i baratoi Cynlluniau Datblygu Unigol.

Pwysleisiodd SAB a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yr angen am hyfforddiant parhaus i roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i staff, gyda lleiafrif bach yn unig wedi cwblhau'r Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol. Nododd llawer o ymatebwyr fod angen cymorth pellach ar agweddau penodol ar y system ADY. Ar y cyfan, cytunodd ymatebwyr AB fod prosesau adnabod ADY yn amserol a bod rhieni a gofawyr yn cymryd rhan.

4.6 Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg a chyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg

Un o elfennau allweddol strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, [Cymraeg 2050](#), yw i ymgysylltu â'r Gymraeg barhau i mewn i addysgol drydyddol, gydag angen cydnabyddedig i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y sector addysg drydyddol.

Mae'r ddarpariaeth AB cyfrwng Cymraeg yn anwastad; mae gan gyfran uwch o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog chweched dosbarth o'i gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg ac mae colegau AB a darparwyr seiliedig ar waith yn cynnig cyfleoedd mwy cyfyngedig. Mewn AU, mae'r ddarpariaeth wedi'i chanolbwyntio i raddau helaeth mewn astudiaethau israddedig amser llawn.

Cyfraddau uwch o ddilyniant i addysg drydyddol yn gyffredinol, i'r chweched dosbarth, ac i lefel 3

Mae gan ddysgwyr sydd wedi cofrestru ym Mlwyddyn 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyfraddau dilyniant uwch i addysg drydyddol yn gyson. Ymhlith y rhai a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2022/23, aeth 54% o ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r chweched dosbarth ysgol o'i gymharu â 33% o ysgolion cyfrwng Saesneg ([Medr, 2025](#)).

Roedd dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o astudio ar lefel 3 (76%) na dysgwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg (64%).

Mae cyfraddau dilyniant a chyrchfannau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion dwyieithog a Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn dilyn patrymau tebyg ar y cyfan, h.y. cyfraddau cyfranogiad uwch ac ar lefelau uwch, o'i gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd mewn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prentisiaethau ac mewn addysg bellach amser llawn ([Medr, 2026](#)). Mae'r cynnydd hwn bron yn gyfan gwbl oherwydd cynnydd mewn gweithgareddau sy'n cynnwys "swm bach" o ddysgu cyfrwng Cymraeg. Bu cynnydd hefyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n cymryd gweithgareddau gyda 'swm sylweddol' o ddysgu cyfrwng Cymraeg, ac mae canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n derbyn cymwysterau'n gyfan gwbl yn Gymraeg ar ei hisaf ers 2017/18. ([Medr, 2026](#)).

Ar gyfer addysg uwch, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cofrestriadau ar gyfer credydau cyfrwng Cymraeg wedi gostwng, gyda'r defnydd yn amrywio ar draws pynciau ([Medr, 2026](#)). Mae tua 15% o fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru yn derbyn o leiaf rywfaent o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ([Davies, Poole a Huxley, 2026](#)).

Mae dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn addysg uwch yn tueddu i gael cyrhaeddiad blaenorol uwch ac maent yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd llai difreintiedig ([Davies, Poole a Huxley, 2026](#)). Mae myfyrwyr sydd â dau riant sy'n siarad Cymraeg yn llawer mwy tebygol o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg a nhw yw'r lleiaf tebygol o astudio y tu allan i Gymru.

Waeth ble maent yn astudio, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o fynd i gyflogaeth lefel graddedig yng Nghymru chwe mis ar ôl graddio, o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg ([Poole, Davies a Huxley, 2026](#)).

4.7 Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal⁵

Mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i gael eu tangynrychioli'n gyson ar draws addysg drydyddol. Nid yw llawer o gynlluniau cymorth ariannol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) a LCA yn cynnwys unrhyw ofynion trothwy incwm ar gyfer y grŵp hwn, ac mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, yn seiliedig ar argymhellion adolygiad Diamond, yn darparu mynediad at yr uchafswm grant cynhaliaeth waeth beth fo'u hincwm aelwyd ochr yn ochr â chymorth ariannol wedi'i dargedu.

Mae dadansoddiad ar lefel y DU yn dangos bod ymgeiswyr â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn dilyn llwybrau llai llinol a hirach i mewn i AU. Maent yn fwy tebygol o wneud cais fel myfyrwyr aeddfed, cymryd Diplomâu Mynediad at AU, a symud ymlaen ar gyfraddau is: dim ond tua 15% o'r rhai sy'n derbyn gofal yn barhaus sy'n mynd i mewn i AU erbyn 19 oed, o'i gymharu â 47% o'u cyfoedion. Maent hefyd yn llai tebygol

⁵ Dysgwyr sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol, gan gynnwys gofal maeth neu aros mewn Cartref Plant

o fynychu darparwyr tariff uwch, yn fwy tebygol o fod â chyrhaeddiad blaenorol is na'r cyfartaledd, yn fwy tebygol o adael, cymryd mwy o amser i gwblhau astudiaeth israddedig, a chyflawni dosbarthiadau gradd is ar gyfartaledd. Mae croestoriadedd yn gwaethygu'r heriau hyn: mae dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o fod o ardaloedd difreintiedig, bod yn anabl, adrodd am gyflyrau iechyd meddwl, uniaethu fel LHDT+ ac o grwpiau ethnig Cymysg neu Ddu ([UCAS, 2022](#)).

Canfu tystiolaeth o'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond fod dyled benthyciadau myfyrwyr yn teimlo'n fwy peryglus i ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, sy'n aml heb rwydi diogelwch ariannol a sefydlogrwydd. Mae canfyddiadau cynnar [gwerthuso'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol](#) yn awgrymu y gall helpu i wneud AU yn opsiwn mwy hyfyw drwy ddarparu diogelwch yn ystod cyfnodau pontio allweddol, er bod rhai cyfranogwyr wedi adrodd llai o gymhelliant i gymryd rhan mewn addysg neu gyflogaeth.

Yn aml, mae angen bwrsariaethau wedi'u teilwra, gwarantau llety, a chynghorwyr arbenigol ar ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal mewn AU er mwyn iddynt gael cyfranogiad cyfartal. Mewn arolwg yn 2024 o ddysgwyr 16 i 19 oed mewn AB yng Nghymru, nododd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal anghenion iechyd meddwl uchel a tharfu ar addysg, gan gyfrannu at ddilyniant isel i AB/AU a nodwyd bod eu cynlluniau addysg gwreiddiol wedi newid o ganlyniad i'r pandemig ar gyfradd llawer uwch (65.4%) na phoblogaeth gyffredinol yr arolwg (30.7%) ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

Mae tystiolaeth ansoddol gyfoethog o'r [adolygiad o'r LCA](#) yn tynnu sylw at rwystrau ymarferol. Adroddodd dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal bod y broses ymgeisio LCA yn gallu bod yn anodd heb fynediad at ddogfennaeth fel tystysgrifau geni neu rifau Yswiriant Gwladol. Roedd llawer yn dibynnu ar gynghorwyr personol, y rhai sy'n rhoi gofal, neu staff coleg arbenigol am gefnogaeth, ac roedd anghysondebau yng ngwybodaeth gweithwyr cymdeithasol am LCA a chyllid myfyrwyr yn effeithio ar fynediad.

Dywedodd rhai dysgwyr fod LCA wedi eu helpu i osgoi tynnu'n ôl o addysg oherwydd pwysau ariannol, ac wedi galluogi mynediad at gyfleoedd allgyrsiol, a rhywfaint o annibyniaeth ochr yn ochr â chefnogi anghenion sylfaenol. Daeth consensws cryf i'r amlwg y dylid talu LCA yn uniongyrchol i ddysgwyr, yn enwedig i'r rhai mewn gofal neu'n byw yn annibynnol.

Roedd dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal ychydig yn fwy tebygol na'r boblogaeth ehangach LCA o dderbyn cymorth ychwanegol fel prydau am ddim, trafndiaeth am ddim neu â chymhorthdal, neu gymorth caledi coleg. Fel gyda ADY a dysgwyr anabl,

roedd galwad am fwy o hyblygrwydd mewn gofynion presenoldeb i adlewyrchu'n well yr heriau y mae dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu.

'Ni chlywais am LCA hyd nes chwe mis i mewn i'r cwrs hwnnw.' (Derbynnydd LCA blaenorol â phrofiad o fod mewn gofal)

'Yn ystod fy nghwrs, symudais i fy lle fy hun. Roedd yn bendant wedi fy helpu i dalu am gostau dŵr, nwy a thrydan. Roedd gwerth un wythnos (LCA) fel mis neu fis a hanner o fy mil dŵr (Un o gyfranogwr grŵp ffocws profiad o fod mewn gofal, adolygiad LCA)

5. Themâu allweddol

Dull lefel system

Un o'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth yw pwysigrwydd systemau a sectorau sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae rhwystrau cyfranogiad yn rychwantu gwasanaethau a pholisïau lluosog, sy'n gofyn am atebion integredig, aml-sector. Mae anghenion croestoriadol dysgwyr, sy'n cwmpasu llesiant meddyliol, trafnidiaeth, cyllid a chymorth ADY, yn amlygu bod ymyriadau un mater neu ymyriadau wedi'u cynllunio'n gul yn aml yn annigonol. Mae cymorth cyfranogiad effeithiol yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig ar draws darparwyr addysg drydyddol, awdurdodau lleol a systemau cenedlaethol.

Dangosodd amrywiaeth eang o dystiolaeth fod gweithgarwch ehangu mynediad a chymorth ariannol yn fwyaf effeithiol pan fydd cymorth ariannol, academiaidd a llesiant yn cael ei ddarparu fel pecyn cydlynol. Pwysleisiodd cyfranwyr at y gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond fod cymorth ariannol yn unig yn aml yn cael effaith gyfyngedig ar gadw a llwyddiant. Yn hytrach, mae cymorth cofleidiol, gan gyfuno cymorth ariannol â gofal bugeiliol, mentora, tiwtora, a chyfathrebu clir yn allweddol.

"Mae arian yn bwysig, ond nid yw byth yn ateb llawn - mae perthyn, cred, a pherthnasoedd yn bwysicach."

Cynhyrchwyd llawer o fewnwelediadau o'r ffrwd waith dystiolaeth drwy ddata gweinyddol cysylltiedig, gan ddangos gwerth fframwaith dadansoddol cydgysylltiedig ar gyfer dealltwriaeth amserol a chynhwysfawr o lwybrau dysgwyr. Mae heriau gyda monitro system gyfan yn parhau, sy'n tanlinellu'r angen am ddulliau mwy integredig o ddadansoddi profiadau dysgwyr ym mhob rhan o'r system addysg, sy'n rychwantu darpariaeth cyn ac ôl-16.

Pwysau chwyddiant a chostau byw cynyddol

Daeth effaith chwyddiant a chostau byw cynyddol i'r amlwg yn gryf ar draws y sylfaen dystiolaeth. Disgrifiodd rhieni a gwarcheidwaid a gyfrannodd at y gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond bwysau ariannol digynsail ar ddysgwyr a theuluoedd, ac nad oedd cymorth cynhaliaeth myfyrwyr ddim bellach yn cadw i fyny â chostau cynyddol. Mynegodd rhieni a gwarcheidwaid bryder am sut y byddai eu plant yn fforddio bywyd prifysgol, gan nodi bod cyfraniadau teuluol yn fwyfwy angenrheidiol.

Roedd gwaith maes gyda rhanddeiliaid yn adleisio'r pryderon hyn. Disgrifiwyd y system gymorth AU bresennol yn aml fel un nad yw'n cyd-fynd â realiti ariannol presennol, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth rhan-amser. Adroddodd darparwyr fod ehangu opsiynau hyblyg a rhan-amser yn cael ei gyfyngu fwyfwy gan bwysau ariannol a gweithredol, gyda model cyllido yn cael ei ystyried yn annigonol i dalu costau cyflenwi uwch.

Canfu adolygiad tystiolaeth o rwystrau i AU fod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar ymgysylltiad AU, iechyd meddwl, a pherfformiad academiaidd. Mae llawer o fyfyrwyr bellach yn gweithio ochr yn ochr ag astudio oherwydd angenrheidrwydd ariannol, gan adlewyrchu newid yn natur cyfranogiad AU.

Ar draws amrywiaeth o werthusiadau i gymorth ariannol ôl-16, argymhelliad cyffredin oedd adolygu trothwyon incwm aelwydydd sefydlog hirsefydlog, nad ydynt wedi cadw i fyny ag incwm cynyddol aelwydydd. Tynnwyd sylw at y mater hwn mewn adolygiadau o LCA, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB), a chyllid myfyrwyr yn ehangach.

Iechyd meddwl sy'n gwaethygu ymhlith pobl ifanc

Mae iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael yn her sylweddol i bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg ôl-16 yng Nghymru, a waethygydd gan bandemig COVID-19. Mae salwch meddwl yn effeithio ar bontio i AB ac AU, presenoldeb, cyrhaeddiad a chadw cyffredinol mewn addysg drydyddol. Mae'r patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu ledled y DU, lle mae heriau iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr prifysgol wedi cyrraedd lefelau digynsail. (Cogan et al, 2025).

Mae'r effaith yn amrywio ar draws grwpiau. Mae merched yn eu harddegau a menywod ifanc, gofawyr ifanc, dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr anabl a'r rhai sydd ag ADY, a dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is mewn mwy o berygl. Mae iechyd meddwl gwael hefyd yn ffactor risg mawr ar gyfer dod yn NEET ([National Centre for Social Research, 2023](#)).

Mae tystiolaeth arolwg gan ddysgwyr mewn darparwyr AB yn dangos bod mwy na hanner y bobl ifanc 16–19 oed wedi dioddef tarfu ar eu dysgu gan salwch meddwl yn ystod y deuddeg mis blaenorol, ac roedd angen cymorth ar un o bob pump gydag

iechyd meddwl neu lesiant emosiynol. Er bod dysgwyr yn teimlo bod darparwyr yn ceisio diwallu eu hanghenion, mae galw sylweddol heb ei ddiwallu o hyd. ([Llywodraeth Cymru 2024](#)).

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pwysau ariannol, bylchau cyrhaeddiad, gwahaniaethu, a rhwystrau strwythurol eraill yn croestorri â heriau iechyd meddwl i effeithio ar gyfranogiad. Adroddodd rhanddeiliaid a gyfrannodd at y gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond fwy o bryder cymdeithasol yn dilyn y pandemig, yn enwedig pryderon am adael cartref, byw'n annibynnol, a rheoli llwythi gwaith academaidd. Mae darpar ddysgwyr yn chwilio fwyfwy am gymorth iechyd meddwl, asesiadau niwroamrywiaeth, a gwasanaethau llesiant. Mae iechyd meddwl gwael hefyd yn effeithio ar fynediad at gyfleoedd, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, a amlygwyd yn y gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

"Nid ydynt yn poeni am arian yn unig; maent yn poeni am ymdopi." [Rhanddeiliad, gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond]

Mae anghydraddoldeb seiliedig ar leoedd yn llunio cyfranogiad

Cyflwynodd y papur [Dyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru](#) dystiolaeth ar newid demograffig a ragwelir a'r heriau y gallai hyn eu cyflwyno, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Ar hyn o bryd, mae'r gwahaniaethau mewn cyfranogiad rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn aml yn fwy na gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig ac oherwydd cyrhaeddiad, gan ddangos sut mae anghydraddoldeb seiliedig ar leoedd yn llunio mynediad at addysg drydyddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)), gan ddylanwadu ar ganlyniadau addysgol a phatrymau cyfranogiad. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yng ngwaith cysylltu data YDG Cymru sydd ar ddod (i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2026).

Mae'r ddarpariaeth addysg drydyddol wedi'i dosbarthu'n anwastad ledled Cymru. Er bod SAU a cholegau AB wedi cydgrynhoi ac ehangu drwy gampysau lloeren, mae dysgwyr mewn rhai ardaloedd yn dal i deithio pellteroedd hir i gael mynediad at fathau penodol o ddarpariaeth. Mae'r dosbarthiad anwastad hwn, ynghyd â chysylltedd cyfyngedig, yn cyfyngu ar ddewis pwnc a hyblygrwydd llwybr, yn enwedig i ddysgwyr gwledig.

Mae trefniadau trafndiaeth a chyllid hefyd yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, mae rhai SAB yn defnyddio cronfeydd yn ôl disgrisiwn fel y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i

ddarparu trafndiaeth am ddim, a chanfu adolygiad LCA fod 27% o'r derbynwyr yn cael mynediad at drafndiaeth coleg am ddim a 49% yn defnyddio LCA i dalu costau trafndiaeth. Mae'r amrywiadau hyn yn creu profiadau anghyson i ddysgwyr ar draws ardaloedd lleol. ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

Mae tystiolaeth gan bobl ifanc 14–25 oed yng nghefn gwlad Cymru yn dangos bod 81% yn disgwyl gadael eu hardal leol ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, gan adlewyrchu darpariaeth gyfyngedig yn lleol a rhwystrau trafndiaeth (Woods and Utz, 2022). Cysylltedd gwael, mae pellteroedd hir, llwybrau trafndiaeth gyhoeddus cyfyngedig, ac anghysondeb rhwng amserlenni cyrsiau ac amserlenni trafndiaeth, yn cyfyngu ymhellach ar fynediad.

Mae bylchau data hefyd yn effeithio ar ddealltwriaeth o anghydraddoldeb seiliedig ar leoedd. Er enghraifft, nid yw dysgwyr o ardaloedd ar y ffin sy'n croesi i Loegr ar gyfer AB yn cael eu cofnodi mewn setiau data gweinyddol Cymru, ac mae rhai arolygon yn gorgynrychioli dysgwyr trefol, gan adael bylchau i siroedd yn y gwlad fel Gwynedd. ([Llywodraeth Cymru 2024](#)).

6. Bylchau yn y dystiolaeth a chyfyngiadau

Effaith pandemig COVID-19

Creodd pandemig COVID-19 doriadau mawr mewn cyfresi data addysg yng Nghymru. Roedd cau ysgolion, newidiadau i drefniadau asesu ac atal casgliadau statudol wedi tarfu ar barhad a chymhariaeth setiau data allweddol. O ganlyniad, dylid dehongli tueddiadau sy'n rhychwantu cyfnod y pandemig yn ofalus, gan y gall newidiadau yr arsylwyd arnynt adlewyrchu tarfu dros dro yn hytrach na phatrymau tymor hwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fesurau presenoldeb, cyrhaeddiad a dilyniant.

Data cydraddoldeb

Mae anghysondebau yn y ffordd y cofnodir nodweddion gwarchodedig ar draws setiau data addysg, ac ar draws gwledydd y DU, yn cyfyngu ar y gallu i ddadansoddi sut mae demograffeg yn croestorri â llwybrau ôl-16. Mae anabledd, er enghraifft, yn cael ei gofnodi'n amrywiol gan ddefnyddio gwahanol ddiffiniadau o anabledd, tra bod y CYBLD yn cofnodi ADY (a statws AAA gynt) ac nid anabledd, gyda'r trosglwyddo i system Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 hefyd yn arwain at newidiadau i gofnodi ADY.

Er bod data HESA yn dangos amrywiad mewn cyfranogiad ar draws grwpiau ethnig, mae [newidiadau mewn categorïau ethnigrwydd](#) dros amser a data anghyflawn yn cyfyngu ar gadernid unrhyw gasgliadau ([Llywodraeth Cymru, 2026](#)).

Mae ffurflenni cydraddoldeb gwirfoddol yn lleihau cyflawnrwydd data ymhellach; dim ond tua hanner yr ymgeiswyr i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ac i Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) sydd fel arfer yn darparu gwybodaeth am gydraddoldeb ynghylch a ydynt yn nodi bod ganddynt anabledd a'u hethnigrwydd. Mae hyn yn cyfyngu ar ddadansoddiad ystyrlon o gyfranogiad, canlyniadau, a chroestoriadedd.

Setiau data tameidiog

Mae strwythur setiau data ôl-16 yn cyfyngu ar y gallu i ffurfio golwg gyfannol o gyfranogiad addysg drydyddol. Mae data UCAS yn cwmpasu ymgeiswyr amser llawn addysg uwch yn unig ac mae'n eithrio ymgeiswyr addysg uwch uniongyrchol i'r sefydliad, sy'n fwy cyffredin ymhlith dysgwyr aeddfed ac mewn pynciau penodol. Mae darlun llawn o gyfranogiad AU yn gofyn am driongli â data cofrestru HESA.

Mae anghysondebau mewn mesurau o allu iaith Gymraeg unigolion ar draws y sector addysg drydyddol.. Argymhellir dadansoddiad pellach i wella dealltwriaeth a dehongli data addysg sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol drwy'r system addysg yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer disgrifio sgiliau iaith Gymraeg, yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd (CEFR). Mae gan hyn y potensial i ddarparu ffordd fwy cyson i unigolion adnabod a disgrifio ble maen nhw ar eu taith dysgu Cymraeg.

Nid yw bylchau data mewn rhanbarthau ar y ffin, lle mae dysgwyr sy'n croesi i Loegr ar gyfer AB yn cael eu cofnodi yn setiau data Cymru, gan arwain at danamcangyfrif cyfraddau dilyniant mewn siroedd yr effeithir arnynt.

Diffyg monitro hirdymor o ganlyniadau

Mae tystiolaeth gyfyngedig o hyd ar ganlyniadau hirdymor cymorth ariannol mewn addysg drydyddol. Mae sawl adolygiad yn tynnu sylw at “brinder data” ar ganlyniadau hirdymor, gyda llawer o'r dystiolaeth ar ehangu cyfranogiad yn dibynnu ar effaith ganfyddedig yn hytrach na mesuredig. Mae tystiolaeth gadarn ar gofrestru, cwblhau, neu ganlyniad tymor hwy yn gyfyngedig. Byddai ymgorffori fframweithiau mesur sy'n seiliedig ar ganlyniadau yng ngham cynllunio'r rhaglen yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth yn y dyfodol.

Mae priodoli hefyd yn her gyson. Mae dysgwyr fel arfer yn profi ymyriadau lluosog, sy'n gorgyffwrdd, gan ei gwneud yn anodd ynysu effeithiau unrhyw becyn cymorth unigol. Er enghraifft, yn yr adolygiad o'r LCA, ni ellid datgysylltu canlyniadau oddi wrth gymorth statudol a dewisol arall sydd ar gael i bobl ifanc 16–18 oed, gan fod llawer o dderbynwyr LCA ar yr un pryd yn derbyn y gronfa ariannol wrth gefn, prydau ysgol am ddim neu fwyd â chymhorthdal, a thrafnidiaeth am ddim neu â chymhorthdal a

ddarperir naill ai gan awdurdodau lleol, sefydliadau addysg drydyddol, neu drwy'r gronfa ariannol wrth gefn.

Bwlch tystiolaeth ar y rhai nad ydynt yn cyfranogi

Mae llais y dysgwr yn ganolog i ddeall cyfranogiad, ond mae'n anodd ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn parhau i addysg ôl-16, yn enwedig cyn-ddysgwyr nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau ar hyn o bryd, gan adael bwlch tystiolaeth sylweddol.

7. Goblygiadau a chyfeiriadau'r dyfodol

Mae'r corff cynhwysfawr o dystiolaeth a syntheseiddiwyd yn yr adroddiad hwn yn rhoi mewnwelediadau manwl ar y tueddiadau a'r heriau sylfaenol sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol sy'n benodol i'r cyd-destun a'r dirwedd addysg yng Nghymru, ynghyd â thystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda i gefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn addysg ôl-16.

Mae'r canfyddiadau yn atgyfnerthu na ellir deall cyfranogiad drwy ffigurau cofrestru yn unig; Mae profiadau, llwybrau a chanlyniadau dysgwyr ar draws y system yr un mor bwysig. Bydd gwella cyfranogiad yn gofyn nid yn unig am ehangu mynediad ond hefyd cefnogi carfan fwy amrywiol i aros mewn dysgu, cyflawni cymwysterau lefel uwch, a symud ymlaen i astudiaethau neu gyflogaeth bellach.

Mae bylchau parhaus mewn cyfranogiad a chyrhaeddiad, ynghyd â thystiolaeth bod cymorth ariannol yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei baru â chymorth academaidd, bugeiliol a/neu lesiant, yn dangos angen dull sy'n canolbwyntio mwy ar lefel systemau. Anaml y mae rhwystrau yn digwydd ar eu pen eu hunain ac yn aml yn gysylltiedig yn anunionol ac yn aml maent yn cyfuno, sy'n golygu bod angen dull cydlynol, amlasiantaethol.

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu nad yw dysgwyr yn teimlo'n wybodus am lwybrau addysg drydyddol na chymorth ariannol sydd ar gael. Byddai gwybodaeth gynharach, gliriach a mwy hygrych yn helpu dysgwyr a theuluoedd i lywio dewisiadau a lleihau camsyniadau ynghylch costau, dyledion a chymhwysra. Yn benodol, mae angen gwybodaeth fwy hygrych a theilwra ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad gofal, anabl neu sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos tirwedd newidiol cyfranogiad: mae mwy o ddysgwyr yn cydbwysu gwaith ochr yn ochr ag astudio, mae angen opsiynau dysgu hyblyg arnynt, ac maent yn wynebu mwy o bwysau economaidd-gymdeithasol ac iechyd. Mae angen ystyried y tueddiadau hyn yn ofalus ochr yn ochr â chyfyngiadau ariannol ac

economaidd ehangach a chynaliadwyedd sector, gan fod ganddynt oblygiadau ar gyfer modelau cymorth, strwythurau cyflawni, a blaenoriaethau polisi.

Mae nifer o fylchau tystiolaeth yn parhau. Byddai cryfhau a ffurfioli dadansoddi data, systemau monitro a gwerthuso, yn enwedig dulliau hirdymor, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, yn galluogi olrhain trywyddau dysgwyr yn well ac yn gwella'r ddealltwriaeth o ba ymyriadau sydd fwyaf effeithiol. Yn olaf, wrth i allbynnau dadansoddol pellach o'r ffrwd waith dystiolaeth gael eu cyhoeddi, bydd y sylfaen dystiolaeth yn parhau i ddyfnhau, gan gefnogi gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar draws y system drydyddol.

Cyfeiriadau

Bartlett, S. (2026). The Role of Maths, Science, and English/Welsh GCSE Attainment in Post-16 Subject Progression. *British Journal of Educational Studies*, 1–28.

Gyrfa Cymru (2024) [Hynt disgyblion](#)

Cogan, N. Murray, A. Long, E. Gardani, M. O'Toole, M. Leung, M. Kyratzi, S. Milicev, J. Dryburgh, K. Bolota, C. Ho, L. (2025). Student mental health in UK higher education institutions: Protocol for a scoping review of trends, gaps, and research directions JMIR Research Protocols. Volume 14, 2025

Cyd-Gyngor Cymwysterau (2025) [English, maths, Welsh 16-18 year olds by key grades and sex, Wales](#)

Cymwysterau Cymru (2025) [Dadansoddiad Cydraddoldeb Haf 2025: TGAU, UG a Safon Uwch](#)

Davies, R., Poole, J., & Huxley, K. (2026). [Data Insight: Who studies in Welsh? ADR Wales.](#)

Higher Education Statistics Agency (2026) [Higher Education Student Statistics: UK, 2024/25 - Student numbers and characteristics](#)

Higher Education Statistics Agency (2023) [Degree attainment by socioeconomic background: UK, 2017/18 to 2020/21](#)

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2024) [Major challenges for education in Wales](#)

Medr (2025) [Mesur Cyfranogiad Cychwynnol mewn Addysg Uwch Cymru: 2016/17 i 2022/23](#)

Medr (2025) [Hynt Graddedigion, 2022/23](#)

Medr (2025) [Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol Addysg Uwch](#)

Medr (2025) [Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025](#)

Medr (2026) [Pynciau astudio – y galw am feysydd pwnc, eu darpariaeth a'u dosbarthiad ar draws addysg uwch yng Nghymru](#)

Medr (2026) [Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol, Awst 2024 i Orffennaf 2025](#)

Medr (2026) [Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2024/25](#)

Medr (2026) [Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol, Awst 2024 i Orffennaf 2025](#)

National Centre for Social Research (2023). [Risk factors for being NEET among young people.](#)

Poole, J., Davies, R., & Huxley, K. (2026). [Data Insight. Who gets a graduate job? The impact of Welsh language on the early careers of Welsh students. ADR Wales](#)

Llywodraeth y DU (2022) [NEET Age 16 to 24.](#)

Llywodraeth y DU (2025) [Universities to deliver better outcomes in return for full fees](#)

Llywodraeth Cymru (2023). [Pontio i fyd gwaith: adroddiad](#)

Llywodraeth Cymru (2023). [Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru: adroddiad](#)

Llywodraeth Cymru (2024). [Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Rhagfyr 2023 i Mai 2024: adroddiad terfynol](#)

Llywodraeth Cymru (2024). [Y Warrant i Bobl Ifanc adroddiad sgwrs genedlaethol: cam 2 a 3](#)

Llywodraeth Cymru (2024). [Survey of learner experiences in post-16 education: privacy notice.](#)

Llywodraeth Cymru (2024). [Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16: Ebrill i Mai 2024](#)

Llywodraeth Cymru (2024). [Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr: cynllun gwerthuso 2024](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\) 2025 adroddiad canlyniadau](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol i pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol 2024 i 2025](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Canlyniadau arholiadau: Medi 2024 i Awst 2025 \(dros dro\)](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Gwerthusiad ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: adroddiad terfynol](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Y Warant i Bobl Ifanc: gwerthusiad proses](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Canlyniadau arholiadau: Medi 2024 i Awst 2025](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Gwerthusiad o'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol \(crynodeb\)](#)

Llywodraeth Cymru (2025). [Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cynllun LCA yng Nghymru \(Chwefror 2025\)](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Ymchwil i lywio'r gwerthusiad o'r Diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: 5 her a galwad am gyflwyniadau](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Hydref 2024 i Fedi 2025](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Adolygiad o Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru \(Addysg Bellach\)](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Presenoldeb Blwyddyn 11 a dilyniant i addysg ôl-16: Medi 2016 i Awst 2024](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol i pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol 2025 i 2026](#)

Llywodraeth Cymru (2026). [Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad o dystiolaeth](#)

Senedd Cymru (2025) [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16](#)

Sefydliad Polisi Addysg Uwch (2024) [Why are fewer Welsh 18-year-olds applying to university?](#)

Sefydliad Polisi Addysg Uwch (2025) [A Minimum Income Standard for Students](#)

Sefydliad Polisi Addysg Uwch (2025) [Public hugely overestimate graduate regret and underestimate the economic value of universities while being wrong about tuition fees – new study](#)

UCAS (2022) [Next Steps: What is the experience of students from a care background in education? report](#)

UCAS (2022). [Next Steps: What is the experience of disabled student in education?](#)

UCAS (2024) [Number of disadvantaged students getting a place at university hits record high](#)

UCAS (2024) [entry UCAS Undergraduate reports by sex, area background, and ethnic group](#)

Woods, M., & Utz, P. (2022). Young People in Rural Wales: Survey Report.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2025) [Teenage career development in Wales: Insights from PISA](#)

Ystadegau Cymru (2026) [Data dangosyddion Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#)
MALIC (2025) [fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is \(AGEHI\) ac awdurdod lleol: maes addysg](#)

